

**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol
Iechyd Cyhoeddus Cymru eu cadarnhau**

21 Hydref 2024 am 09:30, yn 3.3 CQ2 a thrwy Microsoft Teams

Yn bresennol:		
Kate Young	(KY)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector).
Clare Jenkins	(CJ)	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd y Bwrdd
Tamsin Ramasut	(TR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth)
Yn Bresennol:		
Rachel Attwood	(RA)	Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
Michelle Battlemuch	(MB)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Tîm Gweithredol
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol – Ansawdd a Nyrso
Lucy Day	(LD)	Rheolwr Busnes
Nick Elliott	(NE)	Cadeirydd Dros Dro a Chyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol)
Karen Fitzgibbon	(KF)	Pennaeth Gweithrediadau Pobl a Datblygu Sefydliadol (ar gyfer eitem 3)
Liz Heath	(LH)	Cynrychiolydd ochr staff
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Samantha Morgan	(SM)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth, Mewnwelediadau a Gwasanaeth Pobl (Gweithrediaeth y GIG)
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Ymddiheuriadau		
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Ysgrifenyddiaeth		
Ffion Lloyd	(FL)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
Dechreuodd y cyfarfod am 10:30		
Rhan A		
PODC 1/2024.10.21	Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb	
Agorodd KY y cyfarfod a chroesawodd pawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal yn electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.		



<p>Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ym mis Hydref 2024.</p> <p>Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb a dderbyniwyd.</p>	
PODC 1.1/2024.10.21	Datganiadau o Fuddiant
<p>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.</p>	
PODC 1.2/ 2024.10.21	Cofnodion, Cofnod Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd 09 Gorffennaf 2024
<p>Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09 Gorffennaf 2024.</p> <p>Mynegodd KY bryder ynghylch sicrwydd o ran ymateb ICC i flaenoriaethau Safon Cydraddoldeb Hil Cymru. Dywedodd NL wrth y Pwyllgor mai'r rheswm am hyn oedd bod oedi cyn derbyn y data angenrheidiol. Rhoddodd gadarnhad y byddai trosolwg manwl o'r camau gweithredu sy'n ymateb i adroddiad data WRES ICC yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.</p> <p>Cam Gweithredu: NL</p> <p>Cymeradwyodd y Pwyllgor gau'r camau gweithredu a gwblhawyd ar y Cofnod Gweithredu a chymeradwyo newidiadau i'r dyddiadau gweithredu a amlygwyd.</p>	
Mewn Ffocws / At Wraidd y Mater	
PODC 2/ 2024.10.21	Diweddariad ar Ymrwymiad Cynllunio Tymor Canolig Integredig (IMTP) i'w gyflwyno Ch4 2025-2026
<p>Rhoddodd RA ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed ar ymrwymiad y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) i ddatblygu a gweithredu rhaglen waith systemig a fyddai'n cynyddu sgiliau arwain a rheoli gan gynnwys gallu a hyder.</p> <p>Roedd y diweddariad yn ymwneud â datblygu fframwaith arweinyddiaeth a rheolaeth a fyddai'n cael ei ymgorffori mewn meysydd fel dylunio swyddi, recriwtio a rheoli perfformiad, a bod hyn wedi'i wneud gyda mewnbwn gan randdeiliaid a'r Fforwm Arweinyddiaeth. Roedd y gwaith a gyflawnwyd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gwell mynediad at adnoddau ymddygiadol/diwylliannol a thudalennau gwe.• Gweithdai Arwain gydag Effaith• Ffocws ar hyfforddi trwy ddysgu, gyda phwyslais ar y model 70-20-10• Datblygu cynnig hyfforddiant Academi Arwain a Rheoli ar gyfer arweinwyr a rheolwyr. Mae cynllun peilot o'r rhaglen hon wedi'i gwblhau, ac roedd yn cael ei gaffael am y tair blynedd nesaf gyda'r bwriad o ddechrau ym mis Ionawr 2025. <p>Pwysleisiodd RA yr ymagwedd esblygiadol at y gwaith hwn i sicrhau newid cynaliadwy.</p> <p>Holodd y Pwyllgor y rhesymau y tu ôl i ddiddordeb mawr mewn sgiliau i gynnal sgysiau anodd, a sut y byddai llwyddiant yn cael ei fesur yn erbyn y meini prawf. Nododd RA y</p>	



gallai hyn fod oherwydd hyder neu amodau anaddas a oedd yn cael eu hystyried; a rhoddodd sicrwydd y byddai gwerthusiadau'n cael eu cynnal, megis gwerthusiad o'r fframwaith ymddygiad/Academi a datblygu dangosfwrdd ymgysylltu ac arolygon pwls. Tynnodd NL sylw at y ffaith y byddai'r dysgu'n cael ei ymgorffori yn y broses o adnewyddu'r Strategaeth Pobl.

Holodd y Pwyllgor hefyd sut yr oedd staff ar fandiau is yn cael gwybod am deuluoedd swyddi a'u dilyniant drwyddynt, a sut yr oedd gwersi a ddysgwyd yn ystod y broses hon yn cael eu hymgorffori yn y strategaeth. Amlygodd RA y byddai teuluoedd swyddi yn ceisio cynnwys yr holl staff a chreu llwybrau dilyniant swydd/gyrfa drwyddynt, ac y byddai addasiadau'n cael eu gwneud i'r strategaeth yn seiliedig ar adborth drwy gydol y datblygiad. Gofynnodd y Pwyllgor sut y byddai'r strategaeth yn mynd i'r afael â rheolwyr nad oeddent yn cadw at werthoedd diwylliannol; Eglurodd RA y byddai disgwyliadau clir yn cael eu gosod ar gyfer arweinwyr a rheolwyr, gydag atebolrwydd a rheolaeth briodol ar gyfer y rhai nad ydynt yn bodloni safonau.

Diolchodd KY i RA am y diweddariad, a **chymerodd y Pwyllgor sicrwydd** bod cynnydd yn parhau tuag at Ymrwymiad yr IMTP ac i ddarparu mewnbwn i'r rhaglen waith systemig, a gynlluniwyd i gynyddu sgiliau arwain a rheoli, gallu a hyder, gan gynnwys dysgu ffurfiol.

Strategaeth Pobl

**PODC 3/
2024.10.21**

Diweddariad ar ymrwymiad Cynllun Tymor Canolig Integredig i'w gyflwyno Ch4 2024-2025 ('Cyhoeddi Strategaeth Pobl wedi'i diweddarau')

Darparodd KF ddiweddariad ar adnewyddiad y Strategaeth Pobl i ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o'r pum mlynedd diwethaf a myfyrdod ar yr hyn a gyflawnwyd ers cyhoeddwyd y Strategaeth wreiddiol yn 2020.

Nododd KF fod nifer o sesiynau ymgysylltu wedi'u cynllunio i gael mewnbwn ar y themâu diweddaraf:

- Sesiwn datblygu Tîm y Weithrediaeth Busnes - 13 Tachwedd
- Fforwm Partneriaeth Leol – 14 Tachwedd
- Sesiwn datblygu bwrdd – 12 Rhagfyr

Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Gofyn a oedd y Strategaeth Pobl yn cynnwys ffocws ar gynllunio olyniaeth - cadarnhaodd KF fod cynllunio ar gyfer olyniaeth yn cael sylw drwy gydol y strategaeth a bod maes ffocws allweddol yn ymwneud â datblygu gyrfaedd a dysgu gydol oes er mwyn sicrhau gweithlu effeithiol yn y dyfodol.
- Gofyn a fyddai'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Strategaeth Pobl flaenorol yn cael ei werthuso a'i gyfleu i staff – cadarnhaodd KF fod y fersiwn newydd yn cynnwys manylion yr hyn a gyflawnwyd ers cyhoeddi'r Strategaeth wreiddiol yn 2020 ac y byddai hyn yn cael ei rannu â staff ledled y sefydliad.

NL nodwyd bod y ddogfen Strategaeth Pobl flaenorol yn fanwl iawn a gofynnodd i'r Pwyllgor am adborth ar sut i fynd i'r afael â hyn yn y fersiwn newydd.. Awgrymodd KY y gallai dogfen fyrrach/symlach fod yn fuddiol, ac anogodd aelodau'r Pwyllgor i anfon unrhyw adborth pellach at NL/KF.



Diolchodd KY i KF am y diweddariad, ac **ystyriodd** y Pwyllgor y diweddariad ar y Strategaeth Pobl.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu

PODC 4/2024.10.21 | **Adroddiad Cydraddoldeb ac Adroddiad y Gweithlu Blynyddol (2023/24)**

Tynnodd KY sylw at gyflawniad diweddar Sarah Brewer o dderbyn gwobr am feistroli amrywiaeth yn y sector cyhoeddus. Canmolodd Kate angerdd Sarah am gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant, a phwysleisiodd fod y wobwr yn haeddiannol.

Darparodd RA drosolwg o'r adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol a'r Adroddiad Gweithlu Blynyddol ar gyfer 2023/24, a nododd fod yr adroddiadau'n cael eu cyhoeddi'n flynyddol fel rhan o gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Byddai'r adroddiadau'n mynd trwy broses dylunio a chyfieithu ac roedd disgwyl iddynt gael eu cyflwyno erbyn diwedd 2024.

Amlygodd RA fod yr adroddiadau wedi'u strwythuro yn erbyn y blaenoriaethau strategol yn hytrach na nodweddion gwarchoddedig gyda ffocws ar ganlyniadau, a bod yr elfen gweithlu wedi'i chyfuno â'r adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ehangach.

Canmolodd y Pwyllgor faint o waith a oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiadau ond nododd yr angen am eglurder mewn rhai meysydd, megis sut yr oedd materion yn cael eu nodi ac yr eir i'r afael â hwy, dryswch mewn rhai adrannau lle'r oedd gwaith yn gysylltiedig a sut i brosesu/gweithredu ar ddata staff yn gadael. Awgrymodd y Pwyllgor hefyd y gallai cyfuno'r adroddiadau/strwythuro â blaenoriaethau strategol fod wedi achosi dryswch ac y gallai'r adroddiad ddangos sut mae'r data wedi llywio camau gweithredu. Cydnabu NL y pwyntiau a godwyd a chytunodd i fynd â'r adborth i ffwrdd. Dywedodd NL hefyd wrth y Pwyllgor fod y Tîm Gweithredol wedi comisiynu darn o waith a fyddai'n ceisio mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn ac awgrymodd y gellid dod â diweddariadau ar y gwaith hwn i gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Cydraddoldeb a Gweithlu Blynyddol 2023/24 i'w chyfieithu a'i gyhoeddi, gyda'r ddealltwriaeth y bydd yr adborth a dderbynnir yn cael ei ymgorffori mewn iteriadau yn y dyfodol.

Y Gweithlu a Chynllunio'r Gweithlu

PODC 5/2024.10.21 | **Adolygiad Proffesiynol Rheoleddig o gydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddio**

Rhoddodd MB drosolwg o'r dull a ddefnyddiwyd/system sydd ar waith i wirio statws cofrestru proffesiynol dechreuwr newydd ac i fonitro'r gwaith parhaus o gynnal y cofrestriad hwnnw ar draws amrywiol gyrff rheoleiddio.

Nododd MB fod angen gwaith sylweddol i adolygu a glanhau'r data gofynnol, yn enwedig ar gyfer unigolion sydd wedi cofrestru â'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) lle nodwyd problemau codio. Dangosodd y papur y cymerwyd camau ar unwaith



<p>i unioni'r materion hyn, a nod gwaith parhaus gydag Iechyd a Gofal Cymru oedd rhoi gwelliannau systematig ar waith ar draws byrddau Iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru i sicrhau proses fwy effeithlon yn y dyfodol. Tynnodd CB sylw at y ffaith, ers creu Gweithrediaeth y GIG, fod cynnal sicrwydd ynghylch cofrestriad proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd bellach yn nwylo'r Prif Swyddog Nyrsio.</p> <p>Cafodd y pwyllgor sicrwydd o'r adroddiad, gan gydnabod y gwaith sylweddol a'r gwelliannau a wnaed yn y broses cydymffurfio â chofrestru.</p>	
<p>Llywodraethu, Atebolrwydd a Risg</p>	
<p>PODC 6</p>	<p>Rheoli Risg</p>
<p>PODC 6.1/ 2024.10.21</p>	<p>Cofrestr Risg Strategol (Risg 4)</p>
<p>Rhoddodd CB ddiweddariad ar reoli risg strategol 4. Nododd CB fod hyn yn seiliedig ar ddiweddariad mis Gorffennaf ac fe'i cyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Medi 2024, gyda'r holl gamau gweithredu wedi'u diweddarau neu ar darged i'w cwblhau.</p> <p>Gofynnodd KY a ddylai'r risg gael ei gategoreiddio'n goch o hyd wrth ystyried y gwaith sylweddol sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn; cadarnhaodd NL fod y risg yn parhau'n goch oherwydd yr heriau presennol, ond bod disgwyl gwelliannau o ganlyniad i waith a mentrau parhaus. Nododd NE sesiwn datblygu'r Bwrdd sydd ar ddod ar risg ac awgrymodd drafodaeth ar sgorio risg i sicrhau ei fod yn addas.</p> <p>Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Risgiau Strategol a chymerodd sicrwydd ynghylch rheoli Risgiau Strategol o fewn y sefydliad, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.</p>	
<p>PODC 6.2/ 2024.10.21</p>	<p>Y Gofrestr Risg Gorfforaethol</p>
<p>Darparodd CB ddiweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol a nododd ei adolygiad gan y Tîm Arwain.</p> <p>Amlygodd CB ddau risg i sylw'r Pwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Risg 1541 – byddai'r risg hon yn cael ei thrafod yn fanwl yn ddiweddarach yn y cyfarfod. • Risg 1596 – amlygodd y Tîm Arweinyddiaeth risg/mater posibl o ran a allai Iechyd Cyhoeddus Cymru gydymffurfio â safonau'r Gymraeg a deddfwriaeth hygyrchedd, ac y byddai hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Tîm Arwain ym mis Tachwedd. <p>Ni ychwanegwyd unrhyw risgiau newydd at y gofrestr ac nid oedd unrhyw risgiau wedi'u huwchgwyfeirio/isgyfeirio.</p> <p>Cafodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch rheoli Risgiau Corfforaethol o fewn y sefydliad, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.</p>	
<p>PODC 6.3/ 2024.10.21</p>	<p>Gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer Gweithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru</p>
<p>Darparodd NL ddiweddariad llafar ar y gwaith a wnaed i fynd i'r afael â risg diogelu 1654 ynghylch gwiriadau DBS ar gyfer staff, a nododd fod y papur wedi cael ei gymeradwyo gan y tîm gweithredol.</p>	



Yr opsiwn a argymhellwyd gan y papur oedd opsiwn 3, a oedd yn golygu bod staff yn cael ailwiriadau awtomatig trwy wasanaeth diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd trwy ryngwyneb ESR. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i staff fewngofnodi a thalu i gwblhau'r gwiriad gydag ad-daliad i ddilyn. Nododd NL mai dyma'r ateb tymor byr mwyaf addas, ond y byddai newidiadau tymor hir yn cael eu hystyried oherwydd efallai na fyddai'r ateb hwn yn addas ar gyfer staff. Tynnodd CB sylw at y ffaith mai Iechyd Cyhoeddus Cymru fyddai'r Ymddiriedolaeth Bwrdd Iechyd gyntaf i roi'r lefel hon o sicrwydd ar waith yng Nghymru ac y byddai'n mynd i'r afael â risgiau diogelu sylweddol. Nododd CB hefyd y byddai cymorth a chyfathrebiadau yn cael eu darparu i sicrhau llesiant y staff, ac y bydd pwyslais ar y staff sydd wedi datgelu ymlaen llaw a allent deimlo'n ofidus.

Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch gofyn i staff dalu ymlaen llaw, a gofynnodd am i adborth gael ei gasglu ynghylch gweithredu'r system hon.

Yn amodol ar yr adborth y gofynnwyd amdano, cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y broses wirio DBS ar gyfer y sefydliad.

**PODC 7/
2024.10.21**

Polisiau Corfforaethol

**PODC 7.1/
2024.10.21**

Polisiau i'w cymeradwyo

Cyflwynodd PV ddau bolisi i'r Pwyllgor eu cymeradwyo:

- Polisi Arfarnu ac Ailddilysu (UKPHR)
- Polisi Gofalwyr

Nododd PV fod y polisiau wedi mynd drwy'r broses ymgynghori a'u bod wedi'u cymeradwyo gan y Tîm Arwain. Tynnodd KY sylw at bwysigrwydd datblygu polisi gofalwyr a chanmolodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fel arweinydd yn y maes hwn.

Cytunodd y Pwyllgor i **gymeradwyo'r** Polisi Arfarnu ac Ailddilysu (UKPHR) a'r Polisi Gofalwyr.

**PODC
7.2/2024.10.21**

Crynodeb o Ddiweddariadau Chwemisol i bolisiau

Darparodd PV drosolwg o statws polisiau a gweithdrefnau yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 9 Hydref.

Tynnodd PV sylw at y ffaith bod 67% o'r 39 polisi yn gyfredol a bod 13 o bolisiau'n hwyr yn cael eu hadnewyddu. Nododd PV hefyd, er bod 5% o'r polisiau hen ffasiwn o fewn rheolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, roedd 28% yn bolisiau Cymru Gyfan ac felly y tu allan i reolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Sicrhaodd y Pwyllgor y blaenoriaethu a'r cynnydd a wneir i adolygu polisiau, gweithdrefnau, a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Partneriaethau ac Ymgysylltu	
PODC 8/2024.10.21	Dim
Er Gwybodaeth	
PODC 9/2024.10.21	Eitemau i'w Nodi
PODC 9.1/ 2024.10.21	Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu
PODC 9.2/ 2024.10.21	Y Gweithlu a Chynllunio'r Gweithlu
PODC 9.3/ 2024.10.21	Partneriaethau ac Ymgysylltu
PODC 9.4/ 2024.10.21	Llywodraethu, Atebolrwydd a Risg
Rhoddodd NL a PV ddiweddariad byr ar yr eitemau i'w nodi.	
Nododd y Pwyllgor yr eitemau hyn yn briodol.	
Rhan B	
PODC 10/2024.10.21	Adroddiad Sicrwydd chwe-misol PODC
<p>Cyflwynodd SM yr adroddiad sicrwydd chwemisol ar gyfer Gweithrediaeth y GIG a oedd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Awst 2024. Amlygodd SM y pwyntiau canlynol o'r adroddiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mentrau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) – Datblygu prosesau recriwtio a sefydlu cynhwysol, ochr yn ochr â chreu manau diogel i staff godi pryderon a sefydlu dangosfwrdd Gweithrediaeth y GIG i adrodd ar ddangosyddion allweddol a nodi cyfleoedd dysgu. • Cydymffurfio â'r Gymraeg – derbyniwyd un gŵyn a oedd wedi'i datrys, ac mae adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu'r Gymraeg i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2025. <p>Gofynnodd y Pwyllgor a oedd yr adroddiad hwn yn ymdrin â'r holl feysydd angenrheidiol ar gyfer sicrwydd llwyr, ac a oedd Gweithrediaeth y GIG yn cyd-fynd â fframweithiau Iechyd Cyhoeddus Cymru megis 'Bod ar Ein Gorau'. Nododd PV y byddai'r fframwaith sicrwydd yn y cytundeb lletya yn ei gwneud yn ofynnol i Weithrediaeth y GIG ddarparu diweddariadau ar Siarad yn Ddiogel, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, cydymffurfiaeth â'r Gymraeg, cynllunio'r gweithlu a rheoli cwynion. Ymdrinnir â'r meysydd hyn yn yr iteriad nesaf o'r adroddiad. Tynnodd SM sylw at y gwaith a wnaed i ddatblygu'r fframwaith 'Bod ar Ein Gorau' ochr yn ochr â mewnbwn staff Gweithrediaeth y GIG, a byddai hynny'n cael ei gyfleu'n ôl i'r staff cyn datblygu fframwaith ymddygiad. Nododd SM hefyd fod datblygu fframweithiau pellach yn rhan o gynllun gwaith Pobl a Datblygu Sefydliadol Gweithrediaeth y GIG.</p> <p>Nododd NL y byddai SM yn symud i rôl newydd yn AaGIC ym mis Tachwedd a diolchodd i SM am ei gwaith o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.</p>	



Sicrhaodd y Pwyllgor yr adroddiad fel tystiolaeth o gydymffurfiaeth ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Awst 2024.

**PODC
6/2024.10.21**

Gweinyddiaeth i Gloi

Gofynnwyd i'r Pwyllgor e-bostio adborth ar y cyfarfod i Uned Fusnes y Bwrdd.

Diolchodd KY i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor: 10 Chwefror 2025.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:45.

Heb eu Gadarnhau